OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2018 Rhif 612 (Cy. 117)

2018 No. 612 (W. 117)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Rheoliadau Traffordd yr M4 (Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern), Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2018

The M4 Motorway (Eastbound and Westbound Exit Slip Roads at Junction 33 (Capel Llanilltern), Cardiff) (40 MPH Speed Limit) Regulations 2018

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn sy'n gosod terfyn cyflymder uchaf o 40 milltir yr awr (yn lle'r terfyn cyflymder cyffredinol o 70 milltir yr awr a osodir ar draffyrdd gan Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974 (O.S. 1974/502)) ar y darnau o ffyrdd ymadael traffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn ar gyfer yr offeryn hwn gan mai am resymau diogelwch ar y briffordd y'i gwneir ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar gostau busnes.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

The Welsh Ministers make these Regulations which impose a maximum speed limit of 40 miles per hour (instead of the general 70 miles per hour speed limit imposed on motorways by the Motorways Traffic (Speed Limit) Regulations 1974 (S.I. 1974/502)) on the lengths of the M4 motorway slip roads specified in the Schedule to these Regulations.

A full regulatory impact assessment has not been produced for this instrument as it is made for highway safety reasons and it has no impact on the costs of business.

2018 Rhif 612 (Cy. 117)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Rheoliadau Trafforddyr M4 (Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern), Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2018

Gwnaed	*17 Mai 2018*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*25 Mai 2018*
Yn dod i rym	*18 Mehefin 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 17(2), (3) a (3ZAA) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw gyrff cynrychioliadol y tybiwyd eu bod yn briodol yn unol ag adran 134(2) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trafforddyr M4 (Ffyrdd Ymadael tua'r Dwyrain a thua'r Gorllewin wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern), Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2018 a deuant i rym ar 18 Mehefin 2018.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "traffordd yr M4" ("*the M4 motorway*") yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

(**1**) 1984 p. 27. Diwygiwyd adran 17(2) gan baragraff 28(3) o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a chan baragraff 25 o Atodlen 4 i Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40) ac Atodlen 8 iddi. Mewnosodwyd adran 17(3ZAA) gan adran 26(2) o Ddeddf Cymru 2017 (p. 4).

2018 No. 612 (W. 117)

ROAD TRAFFIC, WALES

The M4 Motorway (Eastbound and Westbound Exit Slip Roads at Junction 33 (Capel Llanilltern), Cardiff) (40 MPH Speed Limit) Regulations 2018

Made	*17 May 2018*
Laid before the National Assembly for Wales	*25 May 2018*
Coming into force	*18 June 2018*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon them by section 17(2), (3) and (3ZAA) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), and after consultation with such representative bodies as were thought fit in accordance with section 134(2) of that Act, make the following Regulations.

Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is the M4 Motorway (Eastbound and Westbound Exit Slip Roads at Junction 33 (Capel Llanilltern), Cardiff) (40 MPH Speed Limit) Regulations 2018 and they come into force on 18 June 2018.

(2) In these Regulations, "the M4 motorway" ("*traffordd yr M4*") means the M4 London to South Wales Motorway.

(**1**) 1984 c. 27. Section 17(2) was amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22) Schedule 8, paragraph 28(3) and by the Road Traffic Act 1991 (c. 40) Schedule 4, paragraph 25 and Schedule 8. Section 17(3ZAA) was inserted by the Wales Act 2017 (c. 4), section 26(2).

Gosod terfyn cyflymder

2. Ni chaiff neb yrru cerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o draffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlen.

Imposition of a speed limit

2. No person may drive a motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour in the lengths of the M4 motorway specified in the Schedule.

Ken Skates

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru
17 Mai 2018

Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers
17 May 2018

YR ATODLEN Rheoliad 2

Y DARNAU O DRAFFORDD YR M4

Y darnau a ganlyn o draffordd yr M4 wrth Gyffordd 33 (Capel Llanilltern) yn Ninas a Sir Caerdydd—

(a) y ffordd ymadael tua'r gorllewin sy'n ymestyn o bwynt 275 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â chylchfan yr A4232 Capel Llanilltern hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno; a

(b) y ffordd ymadael tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 200 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â chylchfan yr A4232 Capel Llanilltern hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.

©ⓗHawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

SCHEDULE Regulation 2

LENGTHS OF THE M4 MOTORWAY

The following lengths of the M4 motorway at Junction 33 (Capel Llanilltern) in the City and County of Cardiff—

(a) the westbound exit slip road that extends from a point 275 metres east of its junction with the A4232 Capel Llanilltern roundabout to its junction with that roundabout; and

(b) the eastbound exit slip road that extends from a point 200 metres west of its junction with the A4232 Capel Llanilltern roundabout to its junction with that roundabout.

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.25

W201805221010 06/2018

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/612

ISBN 978-0-348-20242-7

9 780348 202427